MASH Pen-y-bont ar Ogwr.

Hwb Diogelu Aml Asiantaeth.

Eicon Heddlu De Cymru.

Eicon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Eicon y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Eicon y Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Eicon Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Terri Warrilow, Rheolwr Diogelu Oedolion: Mae'n hwb diogelu aml-asiantaeth, felly mae'r holl bobl berthnasol o fewn yr un ardal yn gallu gwneud penderfyniadau gwell a chyflymach ar sail y wybodaeth sydd gan yr holl asiantaethau.

Ditectif Ringyll, Uned Cam-drin Domestig, Joanne Lewis sy’n siarad mewn cyfarfod: Helô, bore da bawb, croeso i'r drafodaeth ddyddiol heddiw. Pwrpas y cyfarfod hwn yw rhannu gwybodaeth i wella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr, oedolion a'u plant.

Kamal Ray, Rheolwr Tîm MASH: Gallwch weld yn eithaf cyflym pa mor symlach yw'r gwaith mewn gwirionedd, gydag asiantaethau wedi'u lleoli yn yr un adeilad.

Stacey Johns, Swyddog Prawf: Byddwn i'n dweud fod hyn yn ei gwneud hi'n haws o lawer i asiantaethau gyfathrebu, felly rydych yn gwybod ble i fynd ar y cychwyn os oes unrhyw bryderon yn codi.

Joanne: Nawr, gallwn gerdded i lawr at y swyddfeydd, cael sgwrs wyneb yn wyneb â rhywun, a dod o hyd i'r ateb yn y fan a'r lle.

Clare Banks, Ditectif Gwnstabl, Uned Ymchwilio i Gam-drin Plant: O ran diogelu plant, rwy'n credu bod pethau'n dechrau rhedeg yn fwy esmwyth yn dilyn MASH, ac o ganlyniad mae'r plant yn derbyn gwell gwasanaeth, a dyna yw'r peth pwysig.

Terri: Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, a chredaf ei fod er budd yr unigolion hynny, a dyna rydym i gyd yn gweithio tuag ato. Felly rydym i gyd yn cydweithio er budd un person, sydd yn gwneud gwahaniaeth. Boed yn blentyn neu'n oedolyn, y peth pwysig yw ein bod yn rhannu adnoddau a gwybodaeth er mwyn cael canlyniad gwell i'r unigolyn dan sylw.